**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD DDYDD LLUN, 16 MAI, 2016**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir KF Tampin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, D Bailey, R G Brown, J H Brunt, K W Curry, M J B Davies, S C Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, A W Davies, M J Dorrance, V E Evans, W J Evans, D O Evans, L Fitzpatrick, R I George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, A Holloway, G Hopkins, E A Jones, D C Jones, E M Jones, D R Jones, J R Jones, F H Jump, H Lewis, MC Mackenzie, P J Medlicott, DW Meredith, R H Mills, ET Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, GD Price, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K M Roberts-Jones, J G Shearer, K S Silk, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, J M Williams, G I S Williams ac E A York

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC61- 2016 |
|---|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir PJ Ashton, G R Banks, G J Bowker, L V Corfield, S Davies, P Harris, J C Holmes, M J Jones, Eldrydd M Jones, G M Jones, W T Jones, P E Lewis, D Mayor, S McNicholas, G Morgan, R G Thomas, T Turner and S L Williams

| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANT | CC62- 2016 |
|---|---|---|

Datganodd y Cynghorydd Sir JH Brunt fod ganddo fuddiant personol diragfarn fel aelod o fwrdd corfforaeth Coleg Castell-nedd Port Talbot.

| 3. | AD-DREFNU YSGOLION UWCHRADD YNG NGHANOLBARTH A DE POWYS | CC63- 2016 |
|---|---|---|

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor bod y cyngor cyfreithiol a gafwyd yn flaenorol mai dim ond y Cabinet allai benderfynu ynghylch ad-drefnu ysgolion dan Adran 53 y Trefniadau Gweithredol yn anghywir. Gofynnwyd i'r Swyddog Monitro pwy fyddai'n penderfynu ar ad-drefnu ysgolion a dywedodd mai'r Cabinet fyddai'n penderfynu, o dan delerau'r Cyfansoddiad presennol. Rhybuddiodd y Cynghorwyr Sir Gareth Ratcliffe a Gary Price y byddent yn cael eu cyflwyno cynigion i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Gosododd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Ysgolion y cyd-destun strategol, yr achos dros newid a chynigion ar gyfer moderneiddio ysgolion uwchradd yng Nghanolbarth a De Powys. Fe wnaethon nhw esbonio bod safonau anghyson, niferoedd y disgyblion a lleihad yn y cyllidebau yn golygu nad oedd y trefniadau presennol yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Atebodd yr Aelod Portffolio Addysg a swyddogion gwestiynau gan yr aelodau. Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Cabinet wedi ystyried cynigion amgen i'r rhai a oedd yn destun ymgynghoriad. Cadarnhawyd bod cyfres o ddewisiadau wedi eu hystyried a'u gwerthuso gan y Panel Adolygu Trefniadaeth Ysgolion, a oedd wedyn wedi gwneud argymhellion i'r Cabinet.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ac aelodau'r Cabinet eu bod yn barod i ystyried cynigion eraill a ddeuai gerbron yn ystod yr ymgynghoriad a chadarnhawyd y byddai yna amser o hyd i ymgynghori ar gynigion amgen a chael mynediad i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Gofynnodd un Aelod a oedd unrhyw ysgolion heblaw Ysgol Uwchradd Llanfyllin wedi cadarnhau eu bod wedi defnyddio cyllidebau dirprwyedig i drosglwyddo disgyblion o'r tu allan i'w dalgylch a chafwyd gwybod bod un ysgol arall wedi gwneud.
Darparodd Swyddogion fanylion am y niferoedd a ragamcanir ar gyfer yr ysgolion. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai manylion datblygiadau tai arfaethedig yn cael eu hymgorffori yn yr adroddiad pan ddeuai yn ôl i'r Cabinet.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad p’un a oedd y ffigur o 150 o ddisgyblion ar gyfer chweched dosbarth hyfyw yn un a gafodd ei ddewis gan y Cyngor ynteu gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y swyddogion bod y ffigur hwn yn seiliedig yn rhannol ar gyllid ac yn rhannol ar nifer y pynciau roedd Llywodraeth Cymru yn dymuno i ysgolion eu darparu. Cytunodd y Pennaeth Ysgolion i adael i Gynghorwyr gael manylion o'r sail tystiolaeth ar gyfer hyn.
Gofynnodd un Aelod pam fod y cynnig ar gyfer Aberhonddu wedi newid o’r cynnig gwreiddiol ar gyfer ysgol ddwyieithog 11-16 gyda Chweched Dosbarth pwrpasol a dywedwyd wrtho nad oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r opsiwn hwn gan nad oedd yn drawsnewidiol.

Holodd nifer o Aelodau ynghylch y cynnig mai Coleg Castell-nedd Port Talbot (NPTC) ddylai ddarparu addysg chweched dosbarth addysg yn Aberhonddu a Gwernyfed. Hysbyswyd yr Aelodau bod NPTC yn ymrwymo i ddarparu 20 o bynciau academaidd a 5 o bynciau galwedigaethol ar gampws Aberhonddu. Gofynnodd yr Aelodau am safonau NPTC a dywedwyd wrtho eu bod yn debyg i gyfartaleddau Powys ar draws y sector uwchradd.
Gofynnwyd i'r Aelod Portffolio Addysg am y taliad ar gyfer presenoldeb mewn grwpiau ffocws, a dywedodd nad oedd unrhyw daliadau wedi'u gwneud.
Gofynnodd yr Aelodau am asesiadau effaith, a chadarnhawyd y byddai asesiadau effaith ar gydraddoldeb, asesiadau effaith integredig ac asesiadau effaith ar y gymuned yn cael eu cynnwys pan fyddai canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd. Derbyniodd y Swyddogion yr awgrym a wnaed y gellid gofyn i awdurdodau cyfagos a oedd wedi bod trwy ad-drefniadau tebyg roi tystiolaeth o asesiadau effaith gymunedol.

Holodd un Aelod ynghylch canlyniadau safon uwch NPTC, a chadarnhawyd bod y canlyniadau yn is na'r rhai a gyflawnwyd gan Ysgol Uwchradd Gwernyfed. Pwysleisiwyd hefyd y dylid ystyried lefelau amddifadedd yn eu cyd-destun. Cadarnhawyd hefyd na fyddai gan y Cyngor unrhyw gyfrifoldeb am lywodraethiant na safonau ar gyfer addysg ôl-16 pe sefydlid model trydyddol dan NPTC.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y rheswm nad oedd addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig yn Aberhonddu, eglurwyd bod pob ysgol wedi'i herio i gyrraedd statws Categori 2B yn 2011, gan wella'u darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd hyn wedi llwyddo, felly nawr cynigir model canolog o addysg cyfrwng Cymraeg. Cadarnhawyd hefyd bod modelau ysgolion pob oed wedi'u hystyried ar gyfer Aberhonddu a Gwernyfed, ond barn yr SORP oedd nad oeddent yn bodloni'r holl ofynion angenrheidiol er mwyn bod yn ddigon trawsnewidiol.

Soniodd un Aelod am yr angen i gyfuno ysgolion lle bo'n briodol er mwyn creu màs critigol o ddisgyblion i sicrhau bod addysg 6ed dosbarth yn cael ei darparu. Soniodd nifer o Aelodau am yr angen i fwrw iddi ac atal yr ansicrwydd i rieni a disgyblion.

Mewn ateb i gwestiwn am gostau staffio, eglurodd y Pennaeth Ysgolion bod 80-82% o gyllidebau ysgolion yn cael eu gwario ar aelodau o staff, boed y rheiny'n rhai sy'n addysgu neu'n rhai nad ydynt yn addysgu. Cytunodd i ddarparu manylion am gostau arweinyddiaeth mewn ysgolion uwchradd.

**Y Cynghorydd Sir KF Tampin (Cadeirydd)**